**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg**
**Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Siân Gwenllian AS

sian.gwenllian@senedd.cymru

14 Rhagfyr 2020

Annwyl Siân,

Yng nghyfarfod llawn y Senedd ar 2 Rhagfyr, fe ofynnoch chi i mi roi’r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y camau cyfreithiol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd, neu ddim yn eu cymryd, mewn ymateb i ddyfarniad y llys gweinyddol yn achos Driver v. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Atebais gan ddweud na fydd Llywodraeth Cymru yn cymryd safiad ar yr achos Driver.

Hoffwn ymhelaethu ar yr ateb a roddais i chi yn y cyfarfod llawn oedd, fe dybiaf, wedi’i ofyn er mwyn cael eglurder ynghylch bwriad Llywodraeth Cymru i ymyrryd ar faterion polisi Cymraeg yr achos, sef sail 2(g) neu’r “*Welsh language grounds*” (sail 4). Fy mwriad oedd cadarnhau na fyddai’r Llywodraeth yn ymyrryd ar yr elfennau Cymraeg penodol hynny sy’n ymwneud ag adran 1.9 o’r Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Mae’r ateb a roddais ar y diwrnod yn sefyll. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cymryd safiad ar 2(g). Mae angen nodi fodd bynnag bod yna fwriad i Lywodraeth Cymru ymyrryd ar elfen o’r achos apêl sy’n ymwneud â dehongliad adran 50(2) o ddeddf 2013 (sail 1 a 3 yr achos apêl) am fod hynny yn ymwneud â’r dehongliad cywir o destunau Cymraeg a Saesneg yr agwedd hon ar Ddeddf 2013 (mae gan y ddau destun statws cyfartal yn y gyfraith).

Roeddwn eisiau sicrhau nad oedd fy ymateb wedi eich camarwain mewn unrhyw ffordd o ran ymwneud Llywodraeth Cymru yn yr achos, ond roeddwn yn awyddus i roi sicrwydd nad oedd Llywodraeth Cymru yn ymyrryd yn yr achos ar 2(g) / sail 4 yr achos apêl sydd fel y gwyddom, wedi denu sylw yn lleol a chenedlaethol.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a’r Gymraeg
Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.